OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 1153

# Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Celf) (Cymru) 2000

### Enwi, cychwyn, dehongli a chwmpas

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Celf) (Cymru) 2000 a daw i rym ar 1 Awst 2000.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "yr Awdurdod" yw Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru(**1**) ("*the Authority*");

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("*the National Assembly*");

ystyr "y Ddogfen" yw'r ddogfen a gyhoeddir gan yr Awdurdod yn 2000 o dan y teitl "Celf yn y Cwricwlwm Cenedlaethol"(**2**)) ("*the Document*").

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i ysgolion yng Nghymru'n unig.

### Diddymu

**2.** Diddymir Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Celf) (Cymru) 1998(**3**).

### Pennu targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio

**3.** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cyfarwyddo bod y darpariaethau ynglŷn â thargedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio a nodir yn y Ddogfen i gael effaith i'r diben o bennu'r targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio ynglŷn â chelf.

**4.** Nid yw'r enghreifftiau a italeiddiwyd yn y Ddogfen (er mwyn dangos y rhaglenni astudio a ddisgrifir ynddi) yn ffurfio rhan o'r ddarpariaeth a wneir gan y Gorchymyn hwn.

(**1**) Sefydlwyd Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru gan adran 14(1)(b) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p.40), parhaodd mewn bodolaeth yn rhinwedd adran 360 o Ddeddf Addysg 1996 a rhoddwyd ei enw cyfredol iddo gan adran 27(1) o Ddeddf Addysg 1997.

(**2**) ISBN 07504 24095.

(**3**) O.S. 1998/1886.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

*D. Elis Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

10 Ebrill 2000

(**4**) 1998 p.38.